

Hysbysiad Preifatrwydd

Sut rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion ymchwiliadau, apeliadau a'n swyddogaethau craidd eraill

Pwy ydym ni

Sefydlwyd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)¹ i oruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac i gynnal hyder y cyhoedd yn y system.² Amlinellir ein pwerau a'n dyletswyddau'n bennaf yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002 (PRA) a rheoliadau cysylltiedig.³ Rydym yn:

- ymchwilio'n annibynnol i farwolaethau ac anafiadau difrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu a'r honiadau mwyaf difrifol a sensitif o gamymddwyn yn erbyn y rhai hynny sy'n gweithio i'r heddlu. Mae hyn yn cynnwys swyddogion, staff, cwnstabiliaid gwirfoddol a chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r heddlu. Pan y bo'n briodol gall fod yn ymchwiliad troseddol
- goruchwylio ymchwiliadau a gynhelir gan heddluoedd i honiadau o gamymddygiad yn erbyn y rhai hynny sy'n gweithio i'r heddlu (lle rydym wedi penderfynu peidio â'u hymchwilio'n annibynnol).
- cyfarwyddo heddluoedd i gynnal achosion camymddwyn ar gyfer unigolyn/unigolion sy'n gweithio i'r heddlu, lle y bo'n briodol
- pennu apeliadau gan aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn fodlon â'r ffordd y mae'r heddlu wedi delio â'u cwyn
- defnyddio dysgu o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona a hyrwyddo arfer da. Rydym yn cyflawni hyn trwy waith allgymorth â rhanddeiliaid, gwneud datganiadau cyhoeddus, gwneud argymhellion sefydliadol, cyflawni ymchwil a choladu ystadegau er mwyn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau thematig.

[Mae gwybodaeth ychwanegol am yr hyn rydym yn ei wneud ar gael ar ein gwefan.](#)

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut a pham mae'r IOPC yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi.

¹ Y Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu gynt. Sefydlwyd yr IOPC ar 8 Ionawr 2018.

² Rydym hefyd yn goruchwylio'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.

³ Y rheoliadau allweddol sy'n llywodraethu'r hyn rydym yn ei wneud yw Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2012 a Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2012.

Pam ein bod yn prosesu gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r IOPC yn ymrwymedig i barchu a diogelu'ch preifatrwydd. Mae'r IOPC yn casglu, yn prosesu ac yn rhannu gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni'n swyddogaethau. Os byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, rydych yn "destun data". Isod, ceir rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r categorïau testunau data y gallem brosesu gwybodaeth amdanynt:

- achwynwyr
- gwrthrychau neu'r rhai a amheuir (hynny yw, y bobl y mae eu hymddygiad o dan ymchwiliad)
- tystion
- unigolion â diddordeb⁴
- dioddefwyr neu oroeswyr
- aelodau'r cyhoedd (hynny yw, sy'n cysylltu â ni gydag ymholiad cyffredinol neu y byddwn yn siarad â nhw yn ystod ymchwiliad ond nad ydynt yn dystion)
- unigolyn yn gweithredu ar ran heddlu neu wrthrych data arall
- arbenigwyr
- gweithwyr meddygol proffesiynol
- academydd sy'n cynnal ymchwil
- comisiynydd heddlu a throseddau neu gyfwerth neu aelod o'i staff
- Aelod Seneddol
- cynrychiolydd grwp â diddordeb neu elusen
- newyddiadurwr
- crwner neu aelod o'i staff
- barnwr neu aelod o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
- cynrychiolydd o gorff cyhoeddus arall neu adran y llywodraeth

Rydym yn casglu ac yn cadw data personol sy'n berthnasol i'r materion rydym yn eu hymchwilio, i benderfyniad apêl neu i unrhyw un o'n swyddogaethau a ddisgrifir uchod. Byddwn yn rhannu'r data hyn â thrydydd partion yn ôl yr angen (gweler yr adran "Gyda phwy y byddwn yn rhannu'ch data" isod).

Rydym yn defnyddio'ch data personol i gyfathrebu â chi os bydd ein hymchwiliad yn effeithio arnoch fel dioddefwr, goroeswr, tyst, gwrthrych neu unigolyn a amheuir, achwynydd neu unigolyn â diddordeb. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu â chi mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â'n hymchwiliad. Byddwn hefyd yn prosesu'ch data personol er mwyn hwyluso a phrosesu cwyn y byddwch yn ei gwneud o bosibl neu adborth y byddwch yn ei roi o bosibl am y cyswllt a gawsoch gyda ni. Efallai y byddwn yn defnyddio'ch data at ddibenion gwirio ansawdd.

Rydym yn defnyddio data personol a gafwyd yn ystod ein hymchwiliadau a gwaith apêl yn ein gwaith strategol gan gynnwys ymchwil a dadansoddi ystadegol. Rydym hefyd yn ei ddefnyddio i ofyn am adborth gan y rhai hynny y mae ein gwaith yn effeithio arnynt i'n helpu i wneud gwelliannau Pan y bo'n bosibl, byddwn yn darparu'r data yn ddienw. Rydym yn cynnwys data personol yn ein datganiadau cyhoeddus pan fydd er budd y cyhoedd i wneud hynny.

Rydym hefyd yn sicrhau ac yn prosesu data personol ar gyfer rhwymedigaethau statudol a chyfreithiol eraill, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth diogelu data
- ymateb i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth
- mewn cysylltiad â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- mewn cysylltiad â'n dyletswyddau o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

⁴ Fel arfer mae "unigolyn â diddordeb" yn aelod o deulu unigolyn sydd wedi marw neu ei anafu'n ddifrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu, ond gallai fod yn unrhyw un y mae'r IOPC yn ystyried sydd â diddordeb digonol yn y mater o dan ymchwiliad.

Gallem hefyd brosesu eich data personol os nad ydych yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwiliad penodol, ond byddwn yn dod i gysylltiad â chi am reswm arall sy'n ymwneud â'n swyddogaethau fel y nodir uchod.

Math o wybodaeth bersonol y gallem ei chasglu a'i phrosesu

Data personol

Cyfeiria data personol at unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn byw wrtho. Gall y dull adnabod fod trwy wybodaeth yn unig neu ar y cyd â gwybodaeth arall.

Gallai'r data personol rydym yn eu casglu amdanoch gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill (e.e. e-bost a rhifau ffôn), rhyw, statws priodasol, dyddiad a man geni, cenedligrwydd, cyflogwr, teitl swydd a hanes cyflogaeth, manylion teuuol gan gynnwys eu perthynas â chi, eich perthynas ag eraill, eich manylion cofrestru car, delweddau ohonoch gan gynnwys ffotograffau a lluniau teledu cylch cyfyng, data lleoliad neu ddynodwr ar-lein, manylion ariannol, rhifau yswiriant gwladol.

Data categori arbennig

Mae gan gategorïau penodol o ddata personol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol pan y'u prosesir. Y categorïau hyn yw: data am eich iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig neu ddata sy'n ymwneud â'ch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gallai'r data categori arbennig rydym yn eu casglu amdanoch gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: gofnodion meddygol, olion bysedd, DNA, eich hil neu darddiad ethnig a/neu'ch credoau crefyddol (lle, er enghraifft, rydym yn ymchwilio i honiadau o wahaniaethu).

Data camwedd troseddol

Mae gan brosesu data troseddol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol hefyd. Mae data camwedd troseddol yn cynnwys gwybodaeth am honiadau troseddol, troseddau, achosion troseddol ac euogfarnau troseddol.

Nid yw'r IOPC yn cadw cofrestr gynhwysfawr o euogfarnau troseddol. Fodd bynnag, oherwydd natur ein hymchwiliadau rydym yn aml yn cynhyrchu, neu'n derbyn data gan drydydd parti, am honiadau troseddol, troseddau, achosion ac euogfarnau.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu'ch data

Fel corff cyhoeddus, mae'n angenrheidiol i ni brosesu eich data personol, categori arbennig a throseddau er mwyn cyflawni ein swyddogaethau o dan y PRA. Cynhelir y swyddogaethau hyn er budd i'r cyhoedd.⁵ Pan fo'r data yn arbennig o sensitif neu'n perthyn i droseddau ni fyddwn yn ei brosesu oni bai ei fod yn angenrheidiol oherwydd budd sylweddol i'r cyhoedd sy'n deillio o gynnal hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu.⁶

⁵ Erthygl 6(1)(e) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol; adran 8 Deddf Diogelu Data 2018.

⁶ Erthygl 9(2)(g) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol; a.10 a rhan 2 (6) atodlen 1, Deddf Diogelu Data 2018.

Prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith⁷

Pan fyddwn yn cynnal ymchwiliad at ddibenion gorfodi'r gyfraith (er enghraifft, ymchwiliad troseddol), mae'r IOPC yn "awdurdod cymwys" o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i ni brosesu eich data personol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol o dan y PRA.⁸ Pan fyddwn yn prosesu data arbennig o sensitif bydd hyn yn digwydd oherwydd:

- ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny oherwydd y budd sylweddol i'r cyhoedd sy'n digwydd o ganlyniad i ni'n cyflawni ein swyddogaethau o dan y PRA i gynnal hyder yn system gwynion yr heddlu
- bod budd ehangach i'r cyhoedd wrth sicrhau atal, ymchwilio ac erlyn troseddau
- bod dyletswydd arnom i ddarparu data personol i'r heddlu neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill fel y gallant ymchwilio i drosedd a amheuir

Gallwch ddod o hyd [i'n dogfen bolisi briodol yma](#). Mae'n rhoi rhagor o fanylion am ein dull o brosesu data categori arbennig a throseddau.

Data personol wedi'u prosesu at ddibenion dau bwrpas

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau pan fydd angen prosesu pob math o ddata personol at ddibenion gorfodi'r gyfraith a dibenion nad ydynt yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd ymchwiliad i sawl honiad o gamymddwyn ond nad yw pob un yn droseddol o bosibl. Gallai data personol a geir at ddibenion gorfodi'r gyfraith hefyd gael ei ddefnyddio mewn ymchwiliadau ac achosion disgyblu ac achosion perfformiad anfodhaol. Awdurdodir y dibenion hyn gan y PRA a'r rheoliadau cysylltiedig.

Â phwy y byddwn yn rhannu'ch data

Mae gofyn i ni rannu'ch data â thrydydd partion pan fydd gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth â chyrrff cyhoeddus eraill ac adrannau'r llywodraeth er mwyn hwyluso defnyddio'u swyddogaethau statudol neu gyhoeddus eraill. Y categorïau o bobl rydym yn rhannu'ch data personol â nhw yw:

- y Coleg Plismona
- crwneriaid
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- llysoedd a thribiwnlysoedd
- ymchwiliadau
- cyrff y llywodraeth
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- heddluoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill
- y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
- cyrff rheoleiddio neu ombwdsmyr, gan gynnwys HMICFRS, HMIP, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- cynghorwyr proffesiynol, arbenigwyr ac ymgynghorwyr

Rydym yn rhannu data personol ag achwynwyr, unigolion â diddordeb a gwrthrychau/unigolion a amheuir yn ein ymchwiliadau ac â rhanddeiliaid lle y bo angen gwneud hynny er mwyn cyflawni ein swyddogaethau o dan y PRA yn briodol.

⁷ Diffinnir gorfodi'r gyfraith yn Rhan 3, pennod 1, a.31 Deddf Diogelu Data 2018 fel: "atal, ymchwilio, canfod neu erlyn troseddau neu weithredu cosbau troseddol gan gynnwys diogelu rhag ac atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd."

⁸ Rhan 3, pennod 2 (35) (2)(b) DPA 2018.

Penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio

Ar hyn o bryd, nid yw'r IOPC yn cyflawni unrhyw benderfyniadau awtomataidd parthed eich data personol.

Am faint y byddwn ni'n cadw'ch data

Mae gan IOPC amserlen cadw a gwaredu, sy'n rhestru'r data rydym yn eu cadw ac am faint. I weld am faint y byddwn yn cadw'ch data, gweler [ein hamserlen cadw a gwaredu yma](#).

Eich hawliau mewn perthynas â'r data rydym yn eu cadw

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i chi sy'n ymwneud â'ch data personol. Mae'r hawliau hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol. Gallai'ch hawliau gynnwys:

- yr hawl i gael mynediad at eich data
- yr hawl i gael eich data wedi'i gywiro os bydd yn anghywir neu'n anghyflawn
- yr hawl i geisio cyfyngiadau i brosesu'ch data
- yr hawl i wrthwynebu i'ch data gael eu prosesu
- yr hawl i gael eich data wedi'u dileu
- yr hawl i gael eich hysbysu am sut mae'ch data yn cael eu prosesu
- hawliau yn ymwneud â phenderfyniadau wedi'u hawtomeiddio a chlodadwyedd data

Dylech ein hysbysu o unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth fel y gallwn fod yn hyderus bod y data rydym yn eu cadw amdanoch yn gywir.

[I ddeall mwy am yr hawliau hyn a sut i'w defnyddio, gweler ein gwefan.](#)

Ein Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Ein rheolydd data yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Y rheolydd data sydd â'r rheolaeth gyffredinol dros ddiben a'r modd rydym yn casglu a phrosesu data personol.

Mae gan yr IOPC Swyddog Diogelu Data dynodedig a Thîm Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am ddefnyddio'ch hawliau data neu'r ffordd rydym yn casglu, yn trin neu'n prosesu'ch data, cysylltwch â'r tîm naill ai trwy'r dudalen cysylltu â ni ar ein gwefan neu trwy anfon e-bost dpo1@policeconduct.gov.u.k

Fel arall gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Eich hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth

Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd rydym wedi prosesu'ch data personol, mae gennych yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9
5AF www.ico.org.uk
Tel: 0303 123 1113
casework@ico.org.uk

Adborth neu gwynion am ein gwasanaeth neu staff

Os byddwch yn dymuno rhoi adborth i ni neu gwyno am ein gwasanaeth neu staff, cysylltwch â'n Huned Ymchwilio Mewnol naill ai trwy [dudalen gyswllt ein gwefan](#) neu trwy anfon e-bost at IIU@policeconduct.gov.uk.

Fel arall gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener neu adael neges unrhyw bryd ar 0207 166 3261.

Adolygu'r hysbysiad hwn

Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gallai gael ei ddiwygio. [Ewch i'n gwefan yma i wirio am unrhyw ddiweddariadau.](#)